# papur priordy



# Gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi

**Un o negeseuon enwog Dewi Sant, nawddsant Cymru**

**Dewiswyd gan Philip Davies, Scotch Plains, New Jersey, un sy'n dilyn ein hoedfaon digidol yn gyson**
**Gweler yr erthygl y tu mewn am ei reswm dros y dewis**

**Rhifyn 364**
**PAPUR MAWRTH 2023**

# Gair gan Beti-Wyn ac Elin

## Gyda'n gilydd…

***LLUNDAIN***. Mae'n ddinas llawn bywyd a chyffro! Mae'r ddinas wedi ei rhannu'n 32 bwrdeistref - un ohonynt yw Southwalk sydd wedi ei lleoli ar lannau deheuol yr afon Tafwys - sef y South Bank. Dyma'r ardal hynaf yn ne Llundain. Mae'r ardal yn cael ei hadnabod hefyd fel Y Borough.Yn yr ardal hon mae Pont Llundain yn ymestyn dros yr afon, tŵr y ffatri OXO ar ei glannau, ac adeilad uchaf Llundain, sef y Shard, i'w weld yn amlwg. Yma hefyd mae Marchnad enwog Y Borough. Mae marchnad wedi bod ar y safle ers y ddeuddegfed ganrif ac mae yma ddewis da o fwydydd o bob math ar werth, gan gynnwys cynnyrch Cymreig!



Yn y fwrdeistref hon hefyd mae Capel yr Annibynwyr Cymraeg Y Borough. Dyma fam eglwys yr Annibynwyr Cymraeg yn Llundain, gyda'i hanes yn mynd nôl i 1774, pan gynhaliwyd oedfa Gymraeg yn Cook Lane, Smithfield. Mae'r hanes yn un diddorol iawn, gyda Chapel y Borough ar hyd blynyddoedd hir ei thystiolaeth yn Southwalk wedi derbyn gweinidogaeth gyfoethog iawn ac yn eu plith, Y Parchg Gwilym Bowyer, tad Gwynn Bowyer a dderbyniodd alwad i Gapel Y Borough yn 1939. Pan gychwynnodd ei weinidogaeth yno ar 22 Hydref 1939 roedd yr ail ryfel byd wedi cychwyn ac oherwydd holl ansicrwydd y cyfnod hwn gohiriwyd ei sefydlu tan fis Mawrth 1940. Dychwelodd ei wraig a Gwynn i Gymru, ond arhosodd y tad yn Llundain a bu'n lletya gyda dau aelod o'r eglwys, sef Mr a Mrs Evans George. Mae traddodiad cerddorol cyfoethog yn perthyn i Gapel Y Borough gyda Chôr y Borough wedi derbyn cryn lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gellir darllen mwy am hanes Capel y Borough ar https://boroughwelshchapel.com.

Symudwn o Gapel Y Borough yn awr i Eglwys Gadeiriol Southwalk. Sefydlwyd Priordy gan y Normaniaid ar safle presennol yr Eglwys Gaderiol ond gyda diddymu'r mynachlogydd yn 1539, llogwyd yr

adeilad oddi wrth Frenin Harri’r 8fed gan gynulleidfa a sefydlodd eglwys yno a’i chysegru’n Eglwys St Saviours. A hithau bellach yn Gadeirlan ers 1905, mae Southwalk unwaith eto (fel roedd yn nyddiau’r mynachod) yn ganolfan ar gyfer addoliad dyddiol. Mae’n parhau i wasanaethu pobl y plwy a’r esgobaeth fel canolfan addysg, addoliad, gweddi a phererindod ac yn cynnig croeso agored a chynhwysol i bawb sy’n dod yno.

Wrth ymweld ag ardal Southwalk ar brynhawn digon oer o Ionawr eleni, cafodd Elin a Dafydd gyfle i weld y ‘ffagl’ arbennig a oedd ar ymweliad â thir Eglwys Gadeiriol Southwalk am bythefnos. Ac yn wir, roedd yn werth ei gweld. Dyma ddarn o gelf arbennig iawn a oedd yn wledd i’r llygaid gyda’i gwydrau lliw llachar.Yr enw ar y darn celf yw ‘Ffagl Gobaith’ (The Beacon of Hope) ac fe’i comisiynwyd gan Gymorth Cristnogol. Mae’r darn celf yn creu golygfa syfrdanol o olau a lliw gyda negeseuon o obaith – un ar bob ffenest - i godi ysbryd pawb. Roedd y ffagl yn pelydru goleuni ar bum neges bwerus o obaith am newyn, cydraddoldeb, iechyd, hinsawdd ac anghyfiawnder.




Daeth pob neges o obaith yn fyw gan yr artist o Uganda, **Matt Kayem.** Mae gwaith Matt yn archwilio hunaniaeth, hil, hanes, a diwylliant trwy osodiadau, paentiadau collage a ffotograffiaeth. Gan weithio yn ei arddull nodweddiadol, defnyddiodd Matt ddenim wedi'i ailgylchu, a gafwyd o farchnadoedd Kampala ac yna ei ymestyn ar fframiau, fel cynfas unigryw ar gyfer ei greadigaethau bywiog, lliwgar.



Mae pob ffenest sy’n rhan o’r gwaith celf yn cyhoeddi bod unrhyw beth yn bosib ond i ni weithio gyda’n gilydd. Mewn undeb mae gobaith. Dyma neges bob ffenest:

***Os medrwn gynhychu digon o fwyd i fwydo'r byd i gyd medrwn, gyda'n gilydd, ddileu newyn.***

***Os medrwn greu brechlyn mewn 10 mis medrwn, gyda'n gilydd sicrhau mynediad i ofal iechyd i bawb.***

***Os medrwn weld ein hunain o'r gofod medrwn, gyda'n gilydd, wneud yn siŵr bod pawb yn cael eu gweld yn gyfartal.***

***Os medrwn uno biliynau o bobl drwy'r we fyd eang medrwn, gyda'n gilydd, uno'r byd yn ei frwydr yn erbyn anghyfiawnder.***

***Os medrwn gael ynni o'r haul, y gwynt a'r môr medrwn, gyda'n gilydd, symud i ffwrdd oddi wth ynni ffosil.***

Mae'r ffagl, drwy ei ffenestri lliw, yn pelydru neges o obaith ac yn ein herio i gydwethio i wireddu'r un freuddwyd. I ni Gristnogion, breuddwyd Crist, goleui'r byd yw gweld y byd wedi ei gyfannu, a chyfiawnder, tegwch a heddwch yn teyrnasu. Mae Iesu yn ein hatgoffa heddiw y medrwn, gyda'n gilydd, newid y byd.

BYW Y BEIBL

**DARLLENIADAU**

BYW Y BEIBL

| Mis Mawrth | Darlleniad |
|---|---|
| Dydd Gŵyl Dewi | Salm 87 |
| Wythnos 2 | Ioan 3:1-17 |
| Wythnos 3 | Ioan 4\|:5-42 |
| Wythnos 4 | Ioan 9: 1-41 |
| Wythnos 5 | Ioan 11:1-45 |

## Gweddi Gŵyl Dewi



### Gweddïwn

Diolchwn i ti, ein Tad, am Gymru, ac am roi gwlad mor hyfryd i ni.
Diolch i ti am bobl dduwiol fel Dewi oedd yn ceisio dy wasanaethu di, a William Morgan a'r Beibl yn Gymraeg.
Diolchwn i ti am ein hiaith hyfryd, farddonol.
Gofynnwn i ti fendithio ein cenedl.
Helpa ni i fyw i dy blesio di, i dy garu Di,
i ddilyn Iesu ac i helpu pobl o'n cwmpas ni.
Diolch i Ti am fywyd Dewi, nawddsant Cymru,
a'i fod wedi rhannu'r newyddion da amdanat ti
a dy fab Iesu Grist yn ein gwlad.

Helpa ni i ddysgu mwy amdano ac i ddathlu ei fywyd gyda'n gilydd, ac i gofio mai ei waith pwysicaf
oedd dysgu pobl ein gwlad am dy gariad Di.

Helpa ni i ddod o hyd i ddulliau newydd
o wneud Iesu a neges Dewi Sant
yn berthnasol unwaith yn rhagor yng Nghymru'r ganrif newydd.

Wrth i ni weddïo dros ein cenedl ni ein hunain,
cofiwn am holl genhedloedd y byd,
ac yn arbennig y rhai lle mae eu pobl yn byw
yng nghanol rhyfel a gormes, newyn a syched.

Cofiwn am bawb sydd wedi eu heffeithio gan drychinebau naturiol, yn arbennig yn Nhwrci a Syria
gydag effaith y ddaeargyn wedi bod mor fawr.
Bydd yn agos at dy bobl ym mhob man heddiw a phob amser.

Yn enw Iesu Grist.

**Amen**

**DIOLCH YN FAWR**

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**PHILIP, JAYNE A LUCY JONES**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

## PANED A SGWRS



**Bore Mercher - 10.30**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**



# 22 Mawrth 2023

**26 Ebrill 2023**

**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**
***(Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan )***

**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**



**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**

**CWRDD CHWARTER**

**Dydd Iau, 9 Mawrth 2023 - Capel Smyrna**

**Y Gynhadledd am 10.30**

**Cyfarfod y prynhawn am 1.30**
**Emlyn Davies yn trafod y Ffeil Dimentia**

**Croeso i bawb**

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?**
**Trowch at: cyfundeb.com**

## SUL Y GREADIGAETH
## 12 Chwefror 2023



***MAE*** Sul y Greadigaeth yn cael ei ddathlu'n flynyddol ar yr ail Sul cyn y Grawys a chafwyd oedfa arbennig yn y Priordy i nodi hyn.

Rai dyddiau ynghynt, ar 6 Chwefror 2023, fe'n syfrdanwyd i gyd gan effeithiau'r ddaeargryn yn Nhwrci a Syria a chawsom ymdawelu am funud ar ddechrau'r oedfa i gofio'n weddigar am y trigolion a'u colledion.

Drwy gyfrwng ein hoedfa diolchwyd i Dduw am y greadigaeth ond hefyd erfyniwyd am ei arweiniad i'n helpu i ofalu amdani'n gyfrifol a doeth.Mae Duw wedi ymddiried ei greadigaeth i ni ac mae'n cyfrifoldeb amdani felly'n arswydus o fawr. Yn anffodus, mae tystiolaeth ein bod mor aml yn llygru a difwyno'r greadigaeth hon. Mae'n amser i ni ddihuno a newid ein ffordd o fyw a sylweddoli o'r newydd ein cyfrifoldeb am y greadigaeth ryfeddol hon o waith Duw. Gall pob un ohonom wneud ein rhan.

Canwyd yr emynau *Beth yw mesur glas y nen* (115), *Nef a daear tir a mor* (104) *Glendid maith y cread, syndod ei ddieithrwch* (123). *Fy Arglwydd Dduw, daw im barchedig ofon* (140). Cyd-adroddwyd Salm, cafwyd darlleniad dros y sgrîn gan PIP (Pobl Ifainc y Priordy), gwrandawyd ar gân yr y sgrîn (*Pan dorro'r wawr dros ael y mynydd llwm*) a buom yn cyd-weddïo.

Mae'n dyled yn fawr i'n Gweinidog am baratoi'r oedfa, yn cynnwys myfyrdod, ac yn ei habsenoldeb anorfod cymerwyd rhan gan Elis Jones, Elen Marks ac Alun Charles. Y cyhoeddwr oedd Adrian Evans ac roedd Meinir Lloyd wrth yr organ.

***CYNHWYSWYD*** plant yr Ysgol Sul yn hynod o briodol yn ein dathlu. Buont ar daith gerdded yng nghyffiniau'r capel ac yn casglu ysbwriel a adawyd o gwmpas gan ddysgu mewn dull ymarferol fod creadigaeth Duw yn rhy werthfawr i gael ei llygru yn y fath fodd, Diolch i Angharad Wyn a Lowri Davies am drefnu'r daith. Mae'r lluniau i'w gweld yn y rhifyn hwn.

# GWEITHGARWCH YN YR AWYR AGORED AR SUL Y GREADIGAETH













## Tudalen Blaen..




### Rheswm Philip Davies dros ddewis geiriau enwog Dewi Sant, Gwnewch y pethau bychain….

***Mae*** geiriau o anogaeth ein nawddsant bob amser wedi creu tipyn o benbleth yn fy meddwl ac wedi gwneud i mi ystyried o ddifrif ei eiriau doeth.



Mae gennym gyfarchiad oddi wrth Menna Elfyn wedi ei fframio ar y mur yma yn New Jersey. Wedi diolch i Meril am wneud y pethau bychain ar yr aelwyd, fe aeth Menna gam ymhellach gan ofyn "ond pwy sydd ar ôl i wneud y pethau mawr?" Ar ôl i Ddewi ddweud ei eiriau anfarwol, rwy'n tybio mai neges bersonol ac un barhaus oedd hi, un y dylem oll ei hateb a'i dilyn yn ein bywyd beunyddiol, a hynny, er mwyn sicrhau bod y pethau mawr yn cael eu cyflawni gan eraill. Dyna un ffordd, beth bynnag o ateb cwestiwn Menna.

Erbyn hyn, rydym ni i gyd yn ymwybodol iawn o'r newidiadau sy'n bodoli yn ein hamgylchedd heddiw, rhai sydd yn peri argyfwng dirfodol i ni. Dyma fi yma yng Nghaerfyrddin ar fore hyfryd, clir. Ond uwchben, yn y ffurfafen, mae dwy awyren yn hedfan drosodd o America i Lundain gan chwistrellu eu budreddi– ond beth tybed a ddywedai Dewi am hyn pe bai yma heddiw?



Mae gwres yr haf ynghyd â llifogydd y gaeaf a'r dirywiad sydyn yn ein fflora a'n ffawna o'n cwmpas yn fygythiadau eraill. Yn yr UDA, sydd â thri y cant o boblogaeth y byd, rydym yn creu deunaw y cant o ôl-troed carbon byd-eang. Os na wnawn weithredu'r pethau bychain hyn er mwyn amddiffyn ein hamgylchedd, byddwn yn gyfrifol am achosi trychineb byd-eang. Mae'n arswydus o drist i weld hunanoldeb a dicter ar waith i

wrthwynebu gwneud y pethau bychain hyn sydd, (nid bydd!) mor bwysig i'w cyflawni er mwyn dyfodol y blaned.

Yn ei oes a'i gyfnod ef, beth oedd ym meddwl Dewi wrth lefaru ei orchymyn neu ei gymelliad? Pam mae hi mor bwysig i wneud y pethau bychain a'u gwneud yn gyson ? O ble y daw'r arweiniad i gyflawni'r gweithredoedd syml hyn? Ai drwy gariad mam at ei baban? Neu grediniaeth bersonol? Onid lle a man da i ddechrau arni yw drwy ddilyn y Gwynfydau! Beth am gyngor oddi wrth rywun doeth? Yn fy mhrofiad personol, anghofia i byth y geiriau a ddywedodd hen gyfaill fy nhad wrthyf ar fore Sul, a hynny y dydd cyn i mi adael a mynd i'r brifysgol. Yn syml ond yn fythgofiadwy dywedodd "*Gofala dy gwmni".* Mae'r geiriau hyn wedi bod yn angor ac arweiniad i mi dros y blynyddoedd.



Felly cymerwn ysbaid ar ddechrau'r dydd i ofyn beth yw'r pethau bychain sydd i'w gwneud er mwyn creu effaith gadarnhaol ar gylch ein dylanwad. Dyna un ffordd, sef wrth wneud y pethau bychain rhown gymorth i eraill wneud y pethau mawr, er daioni i bawb yn ddiwahân yn ein hamgylchedd bregus.

Diolch i Menna am yr ysbrydoliaeth, ei harweiniad a'i meistrolaeth o'r iaith.

*Diolch yn fawr iawn i Philip a phob dymuniad da iddo yntau a Meril, ei briod, a'r teulu i'r dyfodol.*



**Beth am droi at Wefan yr Undeb?**
**www.annibynwyr.org**

## DOD I ’NABOD EIN HAELODAU

**Papur Priordy’n sgwrsio â**

**LOWRI DAVIES**
**Llangynnwr**



**PP: Wel i ddechrau, beth am ddisgrifio’ch swydd bresennol i ni, Lowri?**
**LD:** *Rwy’n gweithio fel Ymgynghorydd i ranbarth Partneriaeth yn cefnogi adrannau Cymraeg ysgolion uwchradd yn bennaf ar draws Sir Benfro, Sir Gâr a Sir Abertawe. Mae’r gwaith yn gymysgedd o ymweliadau ag ysgolion a chynllunio a darparu cyrsiau Datblygiad Proffesiynol i athrawon.*

**PP: Mae’n swnio’n waith diddorol iawn. Buoch hefyd yn Bennaeth Adran y Gymraeg yn Ysgol y Strade Llanelli. Dyddiau difyr?**
**LD:** *Dyddiau difyr iawn. Roeddwn i’n camu i mewn i esgidiau mawr, gyda sawl un o deulu’r Priordy wedi gwneud y rôl cyn hynny. Fe brofais gwmnïaeth, sbort a chefnogaeth heb ei ail. Roedd y tynnu coes dyddiol ymhlith y staff a gonestrwydd a ffraethineb naturiol pobl ifanc tre’r sosban yn ei gwneud hi’n ysgol bleserus iawn i weithio ynddi.*

**PP: Fel un sy’n ymwneud â’r Gymraeg ym myd addysg tybed a ydych chi’n obeithiol ai peidio am ddyfodol ein hiaith?**
**LD:***Mae gweld y sylw mae Cymru a’r Gymraeg wedi’u cael yn ddiweddar ar draws y byd yn destun balchder mawr. Mae delwedd yr iaith yn bwysig wrth i ni geisio marchnata’r iaith a denu mwy o siaradwyr. Rhaid i ni fod yn ofalus nad ydym yn bwrw hyder siaradwyr newydd trwy gywiro’n ormodol a mynnu perffeithrwydd. Nid yw hyn yn golygu lleihau ein disgwyliadau yn yr ystafell ddosbarth o gwbwl ond tu hwnt i furiau’r dosbarth, mae’n bwysig nad ydyn ni’n gosod*

*disgwyliadau rhy uchel ar ein pobl ifanc a'n siaradwyr newydd rhag eu digalonni.*

**PP: Rych chi'n dod o gefndir amaethyddol yn wreiddiol, Lowri. Soniwch ychydig am y gwreiddiau.**

**LD:** *Merch fferm o ardal Castellnewydd Emlyn ydw i, yr ifancaf o wyrion Fferm Troedyraur, Brongest. Er nad oeddwn i'n dangos rhyw lawer o ddiddo rdeb o ddydd i ddydd gyda'r gwaith ffermio, bydden i yno, ym mlaen y lori ar fore unrhyw sioe gyda'r got wen a'r fasged o ddanteithion yn barod! O'n i wrth fy modd yn y cylch yn arddangos moch, ceffylau, defaid a da. Mae Dad a fy mrawd, Llŷr, yn dal i ffermio ac wedi arallgyfeirio i gontractio yn ogystal erbyn hyn. Un o bentref Llanpumsaint wedyn yw Mam ac mae gen i atgofion melys iawn o dreulio amser gyda Mam-gu Llanpumsaint yn un fach. Mae fy nghefnder yn dal i ffermio fferm y teulu yng Nghwmwernen.*

**PP: Ydy hi'n wir dweud fod y Capel a'r Ysgol Sul wedi chwarae rhan bwysig yn eich bywyd?**

**LD:** *Heb os. Er taw dilyn Mam a dod yn aelod yng Nghapel Saron, Llangeler wnes i yn un ar bymtheg, i gapel fy Nhad yr es i'r Ysgol Sul. Roedd Capeli Salem, Brongest a Choed-y-bryn yn uno ar gyfer yr Ysgol Sul ac roeddem yn lwcus iawn i gael athrawes arbennig yn ein harwain. Fe ddaeth hi'n amlwg bod 'tipyn o stamp' gen i o oed ifanc pan wnes i bledio i gael bod yn Herod yn Nrama'r Geni gan fod gen i wisg 'Harrods' fel hand-me-down wrth gefnither! Cafodd fy athrawon yn Ysgol Brongest ac Ysgol Dyffryn Teifi ddylanwad mawr arnaf ac mae fy nyled yn fawr i nifer ohonynt.*

**PP: A beth am Fudiad y Ffermwyr Ifainc? Fuoch chi'n perthyn i un o'r clybiau?**

**LD:** *Do, buodd y Clwb Ffermwyr Ifanc yn ogystal â'r Ysgol Sul yn ddylanwad mawr arnaf. Fues i'n ddigon lwcus i gael profiadau di-ri mewn cystadlaethau siarad cyhoeddus, gyda'r ddrama ac yn yr Eisteddfod yn ogystal â'r cystadlaethau mwy amaethyddol. Mae'n hawdd iawn anghofio am gyfraniad enfawr y mudiad i gynhaliaeth a thwf yr iaith yng nghefn gwlad yn ogystal â'i werth o ran iechyd meddwl pobl ifanc. Mae fy nyled hefyd yn fawr i'r Urdd a chorau Ysgol Gerdd Ceredigion a Chôr y Wiber.*

**PP: Fe raddioch ym Mhrifysgol Bangor cyn symud wedyn i Gaerdydd ar gyfer cwrs ymarfer dysgu. Pam symud o un pen o Gymru i'r llall, tybed?!**
**LD:***Gan fy mod yn gwybod taw nôl i'r gorllewin oeddwn i am fynd yn y diwedd, roeddwn i'n awyddus i gael profiad o fyw yn y brifddinas cyn dychwelyd yn agosach at adref. Roedd y ffaith fod mwyafrif fy ffrindiau ysgol wedi mynd i'r Brifysgol yng Nghaerdydd, yr atyniad i fod yno ar gyfer y gemau rygbi ac ati ac efallai'r ffaith fod Steffan, y gŵr, yn fyfyriwr yno hefyd yn ffactorau!*

**PP: Beth am wreiddiau Steffan a'i waith erbyn hyn?**
**LD:** *Mab fferm o blwyf Llanwenog yw Steffan. Buodd e hefyd yn weithgar iawn gyda Mudiad y Ffermwyr Ifanc, gyda chlwb Llanwenog. Fe raddiodd mewn Dylunio Cynnyrch ac mae e bellach yn athro Technoleg a Phennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Bro Myrddin.*

**PP: Mae dau o blant gennych, Beca a Sianco, ac rydych yn awyddus iddynt gael Ysgol Sul, mae'n amlwg.**
**LD:** *Ydyn, a hynny gan fod yr Ysgol Sul a magwraeth y capel wedi bod mor bwysig i ni'n dau. Roedden ni'n awyddus iawn i'r plant gael profiadau tebyg. M ae magu plant mewn ardal drefol yn rhywbeth anghyfarwydd i ni, felly mae cael bod yn rhan o gymuned glos, Gymreig y capel yn cynnig rhywbeth cartrefol i ni'n dau.*

**PP: Wel nawrte, rydych fel teulu'n byw bywyd llawn a phrysur iawn. Mae'n siŵr, serch hynny, fod cyfle i ymlacio bob yn hyn a hyn. Beth wnewch chi'r pryd hynny tybed?**




**LD:** *Rydyn ni'n lwcus iawn ein bod yn gallu treulio tipyn o amser fel pedwar ar y penwythnosau a phryd hynny rydyn ni'n ceisio sicrhau ein bod yn cael cymaint o awyr iach â phosib. Rydyn ni'n hoffi mynd i gerdded neu i feicio yn aml ond does dim yn dod â mwy o bleser i fi nag awr neu ddwy ar draeth Aberporth, Tresaith neu Langrannog a hynny yng nghanol yr haf neu'r gaeaf.*

***Diolch yn fawr iawn i chi am y sgwrs, Lowri, a phob dymuniad da i chi a'r teulu i'r dyfodol.***

**Peter Hughes Griffiths…**



## Y Parchedig John Gomer Lewis
## 1844 – 1914.

Yn ôl golygydd y cylchgrawn *Christian Age* roedd Gomer Lewis 'mor boblogaidd fel roedd ei enw yn adnabyddus i bob cartref yng Nghymru.' Mae hyn yn ddisgrifiad teg o'r gŵr a




ddaeth, yn y cyfnod hwnnw, yn enwog trwy Gymru gyfan fel pregethwr huawdl a darlithydd apelgar iawn. Pan fu farw, gwelwyd un o'r angladdau mwyaf a welodd Cymru yn Nre-fach Felindre**.**

Ganwyd John Lewis (ei enw bedydd) ym Mhensarn, Dre-fach yn 1844, ac yntau ond yn bump oed symudodd y teulu i fyw i Lwynbedw, sydd o dan y ffordd yn arwain o bentref Felindre i gyfeiriad Cwmpengraig. Roedd e'n fab i John ac Elizabeth Lewis. John Lewis ei dad sefydlodd Ffatri Wlân y Dyffryn yn ymyl Llwynbedw.

Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Y Capel Bach, Felindre ac yna Ysgol Ramadegol Castellnewydd Emlyn. Gadawodd diwygiad 1859 gryn ddylanwad arno a dechreuodd bregethu yng Nghapel y Bedyddwyr Dre-fach, ac roedd y bachgen-bregethwr yn hynod boblogaidd drwy'r holl ardaloedd. Derbyniwyd i Goleg Hwlffordd ym 1864 a chafodd amryw o alwadau pan oedd yn y coleg oherwydd ei boblogrwydd fel pregethwr.

Yn 1867 cafodd ei ordeinio yn weinidog ar Salem, Capel y Bedyddwyr Maesteg. Denodd aelodaeth fawr i wrando arno yn pregethu, ac aeth y capel yn rhy fach. Adeiladwyd capel newydd ym 1872 i ddal mil o bobl a "dylifai'r torfeydd o bob cyfeiriad i wrando arno". Bedyddiodd dros 405 a derbyniodd 100 a mwy o aelodau o gapeli eraill. Bu'n weinidog

ym Maesteg am 11 mlynedd cyn derbyn galwad i 'r Belle View yn Abertawe ac ymsefydlu yno ar Fawrth y cyntaf 1878 gyda dim ond 44 o aelodau. Erbyn Mehefin y flwyddyn honno roedd 250 o aelodau gan gynyddu wedyn i dros 500. Aeth Capel y Belle View yn llawer rhy fach i'r gynulleidfa, a phenderfynwyd adeiladu capel newydd sbon gerllaw a'i alw'n Capel Gomer er cof am olygydd enwog y cylchgrawn 'Seren Gomer' - **Joseph Harris.** Roedd y capel yn dal mil o bobl.



Ar yr un pryd mabwysiadodd Y Parchedig John Lewis yr enw 'Gomer' fel ei enw swyddogol ac adnabuwyd ef o hynny ymlaen fel y Parchedig Gomer Lewis.

Cyfeiriwyd ato fel "pregethwr bywiog, tanllyd, dylanwadol a doniol – ac ar nos Suliau byddai ugeiniau o bobl yn cael eu troi bant am fod y capel yn orlawn".

Daeth yn adnabyddus fel "ffrind y tlawd", a bu'n Gadeirydd Bwrdd y Gwarcheidwaid yn Abertawe ac ef oedd y Cymro cyntaf i fod ar Bwyllgor Seneddol yn dilyn y *National Poor Law Conference.*

Cafodd ei ethol yn Gadeirydd Cymanfa Morgannwg gyda 23,000 o aelodau ac ym 1898 fe oedd Cadeirydd Undeb Bedyddwyr Cymru gyfan. Penodwyd ef yn arweinydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ffestiniog hefyd yn yr un flwyddyn.

Yn 1893 ymwelodd ag Unol Daleithiau'r America a 'Ffair y Byd' yn Chicago gan fynd ar daith bregethu a darlithio trwy'r wlad. Yna, daeth Gomer Lewis yn enwog trwy Gymru gyfan am ei ddarlith ar "Ffair y Byd". Dywedir iddo'ii thraddodi dros 500 o weithiau ar hyd a lled Cymru. Mae'n debyg bod croeso mawr i wrando ar ei ddarlith a'i bregethau.Mae'n werth dyfynnu o 'Seren Gomer' 8 Rhagfyr 1893 am ei daith ddarlithio: Nos Fawrth Tachwedd 28 – Dinas Pontypridd. Nos Fercher Tachwedd 29 – Blaengarw. Nos Iau Tachwedd 30 - Tabernacl, Caerfyrddin. *("Traddododd y Parch J Gomer Lewis DD – am y 26ain waith – ei ddarlith boblogaidd ar 'Ffair y Byd'. Yr oedd y capel hardd yn llawn o wrandawyr astud, ac roedd y darlithydd yn ddoniol iawn yn ei araith. Cynigiwyd diolchgarwch gan y Parch*

*Wyndham Lewis, yr hwn a ddywedodd fod y ddarlith yn cynnwys mwy o synnwyr, humour a sarcasm, na chlywodd ef erioed yn un ddarlith*".
Nos Sadwrn Rhagfyr 2il – Waunarlwydd, Abertawe

Heb os Gomer Lewis oedd darlithydd enwocaf Cymru. Yn ôl Daniel Jones ar dudalen yn llyfr *Hanes Plwyfi Llangeler a Phenboyr 1898 roedd* ei 'Ffair y Byd' wedi'l thraddodi dros dri chant o weithiau
Bu'n gwasanaethu yng Nghapel Gomer Abertawe am 30 o flynyddoedd ac ar ôl 25 mlynedd yno fe'i anrhegwyd yn hael iawn fel gwerthfawrogiad o'i wasanaeth diflino yn Abertawe. Derbyniodd yr anrhydedd o ddoethor hefyd gan osod DD.ar ôl ei enw bob amser.

Bu'r Dr Gomer Lewis farw yng nghartref ei chwaer yn Frondeg, Cwmhiraeth, Dre-fach Felindre ar 11 Gorffennaf, 1914 a'l gladdu ym mynwent Capel Saron, sydd ar fin y ffordd fawr o Gaerfyrddin i Gastellnewydd Emlyn. Mae cofeb y teulu yn un hardd a nodedig yn y fynwent honno.



Daeth miloedd ynghyd i fod yn rhan o'r cynhebrwng a'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Bethel Dre-fach – y capel ble cychwynnodd ar ei daith fel pregethwr a darlithydd enwocaf Cymru. Llogwyd dau drên o Abertawe i Orsaf Henllan i gario'r galarwyr i Dre-fach Felindre. Mae'r llun sydd ar dudalen 29 o'r llyfr *Canrif o Luniau – Plwyf Llangeler* yn dangos yn glir maint y cynhebrwng a oedd yn cynnwys dau geffyl yn tynnu'r hers a'r arch a chwech a mwy o geffylau dwbl yn cludo'r galarwyr mewn coitsiau. Yn dilyn y gwasanaeth yn y capel rhaid fyddai dringo rhiw serth Pensarn i gyfeiriad Saron gan gludo'r arch a'r galarwyr. Byddai hynny yn ymdrech galed i'r ceffylau. Mae'n anodd meddwl sut y cafodd y cannoedd a ddaeth ar y trên i Henllan o Abertawe eu bwydo wedi'r angladd. Tybed a oedd lluniaeth ar eu cyfer?

Heb os nac oni bai roedd y Parchedig John 'Gomer' Lewis yn un o'r bobl amlycaf a fagwyd yn ardal Dre-fach Felindre ac yn un o fawrion ei gyfnod yng Nghymru.

## AELODAU NEWYDD

***Gweler y Rhwydwaith***



## AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN




# Chwilair Llythyren I

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I | A | C | H | A | W | D | W | R | I | A | E | T | H |
| J | F | D | I | F | O | R | I | S | A | A | C | Y | D |
| A | R | Y | T | F | D | Q | B | X | Y | I | E | S | U |
| I | O | R | D | D | O | N | E | N | L | O | M | I | Q |
| I | Q | E | I | S | O | P | F | K | I | R | C | S | F |
| Y | B | X | M | K | K | J | J | A | F | O | I | E | Y |
| E | Y | T | M | R | I | S | R | A | E | L | A | L | V |
| V | B | I | N | G | E | Z | O | W | Q | E | Z | N | D |
| U | M | I | Y | I | M | M | A | N | U | E | L | V | I |
| J | U | P | A | I | E | C | H | Y | D | D | J | E | A |
| J | I | P | I | C | G | B | I | F | A | N | C | A | W |
| D | A | A | I | Y | H | I | D | D | E | W | O | N | N |
| W | L | X | G | U | L | A | O | U | X | X | B | A | Y |
| B | V | X | B | O | Q | H | U | T | D | D | W | G | D |

IESU
IORDDONEN
IMMANUEL
ISRAEL
IDDEWON
ING
IAGO
IACHAU
IOAN
IACHAWDWRIAETH
ISEL
IAWN
IECHYD
ISOP
IFANC

Fedrwch chi fy helpu fi i gyrraedd y Genhinen Bedr!?



# Ifanc@Priordy

**Yr Ysgol Sul**

Helo bawb. Diolch am eich cwmni yn yr Ysgol Sul yn ystod y mis. Clywais eich bod wedi cael taith gerdded hyfryd fore Sul y Greadigaeth! Da iawn bawb. Rydym yn edrych ymlaen at fis arall llawn hwyl!

**Gwyl Dewi**



Diolch i bawb a ddaeth i'r gwasanaeth. Mae adroddiad mewn man arall yn y papur hwn a digon o luniau!

**Dyma bôs Gwyl Dewi i chil**

**Fedrwch chi gracio'r côd a chreu brawddeg?**

| 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | C | X | Y | B | Z | W | N | R | E | D | F | G | O | K | M | P | H | J | Q | I | V | T | S | L | U |

0 9 22 17 / 10 9 6 20 / 23 0 7 22 / 13 / 0 15 12 3 24 1 17 / 3 / 6 24 0 10 /

3 7 / 10 6 9 25 10 / 6 8 22 17 / 4 13 4 24 / 0 15 / 20 9 23 25

## Caledr yr Ysgol Sul a PIP mis Mawrth

| **Dyddiad** | | |
|---|---|---|
| Mawrth 5 | Ysgol Sul | PIP |
| Mawrth 12 | Ysgol Sul | PIP i aros yn yr oedfa |
| Mawrth 19 | Oedfa Deulu<br>Sul y Fam | Oedfa Deulu<br>Sul y Fam |
| Mawrth 26 | Ysgol Sul | PIP |

*Hwyl tan tro nesaf, Beti Wyn x*

## GWASANAETH GŴYL DEWI CAPELI AC EGLWYSI CYMRAEG TREF CAERFYRDDIN














**Elinor Wyn Reynolds...**

## Gwasanaeth Gŵyl Ddewi i'r teulu



Wel am fore! Roedd hi'n Sul dathlu Gŵyl Ddewi yn y Priordy gyda gwasanaeth i'r teulu ar gyfer eglwysi Cymraeg cylch Caerfyrddin, a phawb o'r plant (a rhai o'r oedolion) wedi'u gwisgo yn eu gwisgoedd gorau. Mae'n fis Mawrth bobl! Y mis pan mae'r gwanwyn yn deffro'r tir. Y mis pan mae'r clociau'n symud ymlaen awr a'r dyddiau'n ymestyn, daw'r haf cyn bo hir. Dyma fis ein nawddsant, Dewi. Yr un a'n hatgoffodd fod pethau bychain yn bethau pwysig. *Nice one*, Dewi.

Felly, dyma ni yn y Priordy ac mi oedd y capel DAN EI SANG! Oedd wir, pob sedd wedi'i chymryd ar lawr. Fedrech chi ddim symud oherwydd bod cymaint o fetgynnau, siôls, capiau fflat a chrysau siec. Roedd y lle'n pingo gan blantos, o ysgolion cynradd ac ysgolion Sul yr ardal. Dyma'r tro cyntaf i ni gwrdd yn griw i ddathlu Gŵyl Ddewi mewn oedfa ers tair blynedd. Meddyliwch!

Cychwynnwyd yr oedfa drwy adrodd y weddi o Lyfr Du Caerfyrddin, 'Cyntaf gair a ddywedaf.' Yna daeth Gwilym a Cian o'r Priordy i'r pulpud i gychwyn gwych i bethau gan estyn croeso i bawb a chyhoeddi'r emyn cyntaf sef 'Air disglair Duw' (C.Ff. 228) a chanwyd yr emyn i gyfeiliant Band y Priordy.

Arweiniodd Siwan o Tabernacl a Gwenfair o Eglwys Crist ni'n hyderus yn y rhan nesaf gan sôn am Ddewi a'i waith yn dweud wrth bawb am Iesu ac am ei gariad tuag atom. Roedd Dewi am i bawb yng Nghymru gredu yn Iesu Grist ac i wybod am gariad mawr Duw tuag atom.

Daeth plant o Eglwys Crist i'n harwain ni'n ardderchog mewn gweddi, Cyhoeddwyd yr emyn nesaf yn eglur gan Serian o Elim, Ffynnon-ddrain sef 'Rho ysbryd llon a meddwl iach' (C.Ff. 562) ar dôn 'Dod ar fy mhen'.

Yna cafwyd cyflwyniad gan y Priordy gyda Trystan (a Mistar Urdd) yn cychwyn yna cafwyd cyfraniadau arbennig gan Luned, Nansi a Gwydion. Fe wnaethon nhw sôn am y ffaith fod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dod i Shir Gar eleni ac mae cynnwrf mawr yn y tir. Bu'r eisteddfod yma cyn hyn, yn 1935, 1967,1989 a 2007 ac mae'n digwydd eto yn 2023. Mae plant wedi dechrau

ymarfer eisoes, yn dysgu dawnsfeydd, yn cofio llinellau, yn tynnu lluniau a chreu celf, mae eraill yn cyfansoddi pob math o bethau ar gyfer cystadlaethau lu. Yn bendant mi fydd hi'n hwyl fawr yn Eisteddfod yr Urdd Shir Gâr eleni. I gloi'r rhan hon, dangoswyd ffilm fer o holl weithgareddau a miri'r Urdd. Mae'n lot o sbri bod yn aelod o'r Urdd yn wir.

Yna gwahoddodd Beti-Wyn yr holl blant i ddod i'r blaen er mwyn canu cân hyfryd iawn, sef 'Mawrth y Cyntaf'. Roedd eu cael nhw i'r blaen fel corlannu diadell reit anystywallt o ddefaid ond wir, mi oedden nhw'n ddigon o sioe a'u canu'n nhw'n rhagorol. Yna cyhoeddwyd yr emyn yn glir, 'Dysg imi garu Cymru' (C.Ff. 832) gan rai o blant y Priordy, Elliw a Gwern a Lliwen..

Rhoddodd Beti-Wyn ddiolch i bawb am ddod a diolch i Miriam Moules y maer am fod yn bresennol hefyd. Yna aeth ymlaen i roi gair i'r plant, galwodd hi nhw i eistedd yn y blaen ac roedd yn anhygoel gweld faint o blant oedd yn medru gwasgu mewn i'r sedd flaen! A wir, am griw bywiog, llawn hwyl. Dechreuodd Beti-Wyn drwy holi beth oedd hoff liw y plant ac wrth gwrs, mi gafwyd enfys o liw'n atebion. Dywedodd hi fod lliwiau'n bwysig achos mai lle digon diflas fyddai yn y byd heb liwiau. Dangosodd Beti-Wyn lun reit ddigalon o Mistar Urdd yn ddu a gwyn, heb ei liwiau arferol, o diar... druan ag e... ond yna aeth ymlaen i sôn am y lliwiau sy'n rhan o wisg Mistar Urdd. Dechreuodd gyda'r gwyrdd ar ei waelod gan sôn fod y gwyrdd hwnnw'n symbol o'r ddaear a'r tir ac yn fwy penodol o Gymru, y wlad ble ry'n ni'n byw. Yna soniodd am y coch, sef lliw y ddraig goch ar ein baner, ond hefyd sy'n symbol o'r bobl, a'r gwaed sy'n rhedeg drwy wythiennau'r bobl hynny, ein cyd-ddyn. Yn olaf, fe nododd y gwyn sydd ar gopa Mistar Urdd a dweud mai symbol o Iesu Grist yw hwn, am ei fod yn berson da. Atgoffodd bawb o arwyddair yr Urdd sef: 'Byddaf ffyddlon, i Gymru (gwyrdd), i gyd-ddyn (coch) ac i Grist (gwyn).' Yn wir, meddai, gallai Dewi Sant ei hun fod wedi bod yn aelod o'r Urdd gan ei fod yntau'n ffyddlon i'r pethau hyn hefyd.

Yna gwahoddodd Beti-Wyn y plant i ddod i ganu a dawnsio i 'Gân Mistar Urdd' ac yn sydyn mi newidiodd set fawr y Priordy mewn i *mosh-pit* gwyllt Cymraeg.

Cafwyd y diolchiadau a gwnaed y casgliad gan Osian, Anni, Rhys a Meredydd o'r Priordy. Roedd arian y casgliad am fynd tuag at brynu Beiblau i ysgolion Llangynnwr a'r Dderwen. Rhoddwyd diolch a gair o weddi am y casgliad gan Beti-Wyn yna canwyd yr emyn 'Fe chwythodd yr awel' (C.Ff. 627) cyn cloi drwy ddweud y fendith.

***RHYDDHAWYD*** pawb allan i'r awyr iach â'r neges am y tri lliw sydd ym maner ein gwlad ac yng ngwisg Mistar Urdd yn canu yn ein clustiau. Dydd Gŵyl Dewi hapus i chi gyd.

**AR Y WE: www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)***

## OEDFA GYMUN UNDEBOL GYDA'R HWYR

**Cynhaliwyd yr oedfa yng Nghapel Elim, Ffynnon-ddrain dan lywyddiaeth y Parchedig Beti-Wyn James. Cymerwyd rhan gan gynrychiolwyr o wahanol gapeli'r dref. Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor. Traddododd bregeth hynod o gyfoethog a chofiadwy wrth iddo ystyried cyfraniad Dewi yng ngoleuni'r Efengyl. Dangosodd fel y patrymodd Dewi ei fywyd ar Iesu - bywyd o gariad a chymod, gan gynnwys caru gelynion. Gweinyddwyd y Cymun gan Beti-Wyn a chafodd gymorth aelodau o gapeli'r dref gyda'r elfennau.**

**Diolchwyd i aelodau Capel Elim am eu croeso ac i aelodau'r Pwyllgor am eu trefniadau ar gyfer y dydd.**

## OEDFA DDIGIDOL

**Diolch hefyd i Beti-Wyn am baratoi oedfa ddigidol ar gyfer Gŵyl Dewi ac i Elinor Wyn, Siwan, Ethan, Iestyn a Maer y Dref am gymryd rhan**

**CYMDEITHAS DDIWYLLIADOL CAPELI HEOL AWST A SMYRNA**

**DARLITH – BEIBL PETER WILLIAMS**

**Eurig Davies**
**Pontardawe**

**Dydd Mawrth – 21 Mawrth 2023 – 2 o'r gloch**
**Festri Capel Heol Awst**
**Croeso cynnes i bawb**

***Cofiwn 300 mlwyddiant geni Peter Wiliams eleni***



## CWIS Y SALMAU

**Pa mor dda ydych chi’n ’nabod y salmau? Yn hytrach, pa mor dda ydych chi’n ’nabod y salmau yn fersiwn beibl.net?!!!!**
**Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!**


### SALM 100



Gwaeddwch yn ---- i'r ARGLWYDD
holl ---- y byd!
Addolwch yr ARGLWYDD yn -----;
a dod o'i flaen gan -----!
Cyffeswch mai'r ARGLWYDD sydd Dduw;
Fe ydy'r un a'n gwnaeth ni,
a ni ydy ei bobl e —
y ------ mae'n gofalu amdanyn nhw.
Ewch drwy'r ------- gan ddiolch iddo,ac i mewn
i'w deml yn ei foli!
Rhowch ----- iddo!
A bendithio ei enw!
Achos mae'r ARGLWYDD mor dda!
Mae ei -------- yn ddiddiwedd;
ac mae'n aros yn ----- o un ---------- i'r llall.

**Atebion ar Dudalen 26**

## COFIO DAU FARDD-BREGETHWR AC EISTEDDFODWYR PYBYR




### ROWLAND WILLIAMS (HWFA MÔN)
### 1823 - 1905

Ganed Hwfa Môn ddwy garif yn ôl i'r mis hwn yn Nhrefdraeth, Ynys Môn, ond cafodd ei fagu yn Rhostrehwfa ar yr ynys ; cymerodd ei enw barddol o enw'r pentref bychan hwnnw. Gweithiodd am gyfnod fel gweinidog gyda'r Annibynwyr yng Ngogledd Cymru a hefyd yn Llundain am gyfnod maith. Ym 1881 dychwelodd i Fôn i fod yn weinidog yn Llannerch-y-medd

Enillodd y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol deirgwaith ac ym 1867 enillodd y Goron yng Nghaerfyrddin (a hynny ym mlwyddyn gyntaf cystadleuaeth y Goron).

Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth.

Roedd yn un o ffigyrau mwyaf adnabyddus ei ddydd. Bu'n Archdderwydd Eisteddfod Gernedlaethol Cymru o 1895 hyd ei farw yn Y Rhyl ar 10 Tachwedd1905.



### EVAN REES (DYFED)
### 1850 - 1923

Ganed Dyfed 1 Ionawr 1850 ym mhlwyf Cas-mael, Sir Benfro. Cafodd ei fagu yn Aberdâr ar ôl i'w rieni symud yno pan oedd yn naw mis oed. Chafodd e fawr o addysg. Roedd yn gweithio yng nglofa Blaengwawr, Aberdâr, pan oedd yn wyth oed.

Symudodd i Gaerdydd yn ei ugeiniau cynnar a dechrau pregethu ond ni chymerodd ofal eglwys erioed.

Cafodd yrfa lwyddiannus fel bardd eisteddfodol. Enillodd Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol bedair gwaith – Merthyr (1881 a 1901), Lerpwl (1884), Aberhonddu (1889). Un o'r pinaclau yn ei yrfa oedd ennill y gadair yn Eisteddfod Ffair y Byd yn Chicago ym 1893.

Bu'n feirniad yn yr Eisteddfod Genedlaethol am flynyddoedd lawer a gwasanaethodd fel Archdderwydd yng Ngorsedd y Beirdd am 21 mlynedd.

Bu farw ar 19 Mawrth 1923.

Mae nifer o emynau ganddo yn *Caneuon Ffydd* (42, 107, 202, 212, 353, 496, 590). Fe ddyfynnwn un ohonynt, sef Rhif 590 i gofio amdano ganrif yn union wedi'i farw - emyn sy'n seiliedig ar brofiad y ddau ddisgybl ar y ffordd i Emaus (Luc 24:28-32):

**Ysbryd Sanctaidd, dyro'r golau**
**ar dy eiriau di dy hun;**
**agor inni'r Ysgrythurau,**
**dangos inni Geidwad dyn.**

**O sancteiddia'n myfyrdodau**
**yn dy wirioneddau byw;**
**crea ynom ddymuniadau**
**am drysorau meddwl Duw.**


**Gweld yr Iesu, dyna ddigon**
**ar y ffordd i enaid tlawd;**
**dyma gyfaill bery'n ffyddlon,**
**ac a lŷn yn well na brawd.**



| CWIS Y SALMAU beibl.net ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | uchel | 6 | giatiau |
| 2 | bobl | 7 | ddiolch |
| 3 | llawen | 8 | haelioni |
| 4 | ddathlu | 9 | ffyddlon |
| 5 | defaid | 10 | genhedlaeth |
| Gallwch hefyd droi at beibl.net | | | |

**COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS**





# Portread Newydd ger Man Geni Dewi




Tybed faint ohonoch sydd wedi bod yn cerdded yn ardal Tyddewi'n ddiweddar? Os ydych, tybed felly a ydych wedi sylwi ar y portread newydd sydd yno?

Ychydig o fisoedd yn ôl cafodd portread diddorol ei osod ger y fan lle dywedir y rhoddodd Non enedigaeth i Ddewi, Nawddsant Cymru. Caiff Santes Non ei phortreadu yn feichiog gyda Dewi Sant ac yn sefyll ar ben clogwyn.

Mae'r portread wedi'i leoli ar fwrdd gwybodaeth newydd ger y llwybr cerdded sy'n arwain at Gapel y Santes Non a'r Ffynnon Sanctaidd yn Nhyddewi.

Yn ôl y chwedl, mae gan y capel a'r ffynnon gysylltiadau cryf â stori geni Dewi Sant, ac ystyrir i'r ffynnon fod â phwerau i iacháu pobl.

Cafodd y ddau sant, Non a Dewi, ddylanwad ar ledaeniad Cristnogaeth yn y byd Celtaidd ledled Cymru, Iwerddon, Cernyw a Llydaw yn y chweched ganrif.

Yr artist, Meinir Mathias sy'n gyfrifol am y portread. Daw'n wreiddiol o Sir Benfro'n ac mae hi bellach yn gweithio fel artist llawn amser a chanddi stiwdio yng Ngheredigion.

**Mae'n werth mynd i weld y portread arbennig hwn!**

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 3 Mai 2023 am 7.30**
**yn y Festri**
**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

**CWRDD DIACONIAID A BAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR YR OFALAETH**
**Nos Fercher 22 Mawrth 2023 am 7**
**yn y Priordy**

Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Iolo mewn cydweithrediad â Pontio
yn cyflwyno




## PIJIN / PIGEON

Dydd Mawrth / Mercher 14/15 Mawrth 2023 - 7.30
Ffwrnes, Llanelli

*Yn seiliedig ar y nofel lwyddiannus 'Pigeon' gan Alys Conran ac wedi'i haddasu i'r llwyfan gan Bethan Marlow. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cyd-blethu, a phob perfformiad yn cynnwys capsiynau Cymraeg a Saesneg. Canllaw Oedran: 13+ (Yn cynnwys iaith gref a themâu o drais yn y cartref)*

**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
***yn cyflwyno...***

## NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

**Rhai gweithgareddau diweddar**
**SUL CYMDEITHAS**




## CYFARFODYDD Y GRAWYS

***Defnyddir Cwrs Grawys Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon(CTB) ar gyfer 2023***




**CLWB IEUENCTID**




***Ail gychwyn Nos Sul 5 Mawrth 6-7 o'r gloch yn Festri Capel Salem***

***Cawsom neges i ddweud fod Gweinidog ac Aelodau Salem yn meddwl amdanom, yn arbennig Bet-Wyn a'r teulu yn eu profedigaeth. Maent yn dymuno cyflwyno'u cydymdeimlad dwysaf â hwy.***

## CAPEL Y PRIORDY

## CINIO GŴYL DEWI



**Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**
**12 ar gyfer 12.30**
**Clwb y Cwins Caerfyrddin**

**Pris: £8**

**Enwau**
**Beti-Wyn (beti.wyn@icloud.com)**
**neu**
**Ar yr Hysbysfwrdd yn y Cyntedd**

**Y TYST**
**yn llawn newyddion da!**
**50c y rhifyn!**
**Cysyllter â Sulwyn Thomas**



**Theatr Bara Caws**
**yn cyflwyno**

**CARIAD YN OES Y GIN**

**Neuadd San Pedr Caerfyrddin**
**Dydd Sadwrn 11 Mawrth 2023 – 7.30**

**Trefnydd- Menter Gorllewin Sir Gâr**
**☎07939 962 042 betsan@mgsg.cymru**

**Comedi dywyll am brofiadau pâr ifanc bohemaidd a gwrthryfelgar wrth iddynt geisio bywyd newydd anturus**

**GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Gwener – 31 Mawrth 2023 – 2 o'r gloch**
***gyda'n***
**Gweinidog**
***Croeso i bawb***



# Trefniadau Pasg yr Ofalaeth

## Croeso i bawb o bob oed



**Sul y Blodau**
***2 Ebrill 2023***
**Oedfa yn y Priordy am 10**
**Oedfa yng Nghana am 2**



**Wythnos Y Pasg**
**Rhyddheir Myfyrdod bob dydd dros ebost a'r cyfryngrau cymdeithasol**

**Iau Cablyd**
***6 Ebrill 2023***
**Oedfa Gymun yn Y Tabernacl, Caerfyrddin am 7**
**gyda'r**
**Parchedig Aled Davies, Chwilog**

**Gwener y Groglith**
***7 Ebrill 2023***
**Oedfa Ddigidiol yn y bore.**
**Oedfa Undebol yn Y Tabernacl am 10.30**
**gyda'r**
**Parchedig Aled Davies, Chwilog**

**Pererindod i ben Bryn Myrddin yn y prynhawn**
**Gadael Allt Fyrddin am 2.30**
**Oedfa ar ben y bryn am 3**
**Te i ddilyn yn Allt Fyrddin (£3.50 y pen)**
**Gwisgwch 'sgidiau addas.**

**Sul y Pasg**
***9 Ebrill 2023***
**Oedfa Gymun Undebol yn Y Priordy am 10**

**Dathlu'r Pasg yn y Gymuned ym Mancyfelin yn y prynhawn**
**Gorymdaith yn gadael mynedfa Wenallt am 3**
**ac oedfa i ddilyn yn y Capel.**
**Paned a byns y grog.**

**Y DIWEDDAR DAN O EVANS**



Cofiwn yn ddiolchgar am y diweddar Dan O Evans a fu farw'n dawel yng Nghartref Gofal Parc Wern ar 11 Ionawr 2023 yn 95 oed. Cofiwn amdano fel gŵr bonheddig ac urddasol a oedd yn ffrind i bawb ohonom.

Treuliodd yrfa lwyddiannus iawn ym myd addysg gan ddiweddu fel Prifathro Ysgol Allensbank, Caerdydd.  Ymddeolodd i Langain gan symud yn y pen draw i Hafan Tywi, Y Rhodfa a dod yn aelod yng Nghapel y Priordy. Roedd Dan yn ffyddlon iawn ar y Sul pan fyddai ei iechyd yn caniatáu a chyfrannodd mewn sawl ffordd i fywyd yr eglwys. Cyn ymaelodi yn Y Priordy bu'n ddiacon ffyddlon a gwiethgar iawn yng Nghapel Smyrna, Llangain.

Roedd yn ŵr uchel iawn ei barch mewn nifer o gylchoedd yn y dref a thu hwnt. Cafodd flynyddoedd hapus iawn yng nghwmni Iris ei briod a bu i'r ddau deithio'r byd gyda'i gilydd. Roedd Dan yn ŵr gwybodus iawn ac yn medru cynnal sgwrs yn hawdd gyda phawb.

Roedd y gynulleidfa fawr a ddaeth ynghyd i'r Priordy ar gyfer ei angladd ar Ddydd Mawrth, 31 Ionawr 2023 yn arwydd sicr o'r parch a fu iddo ac sydd i'w deulu.  Roedd y gwasanaeth yng ngofal ei weinidog gyda chymorth Y Parchg Mary Thorley. Cyflwynwyd cyfarchion gan ffrind i'r teulu, Ffylis Hughes ar ran Iris a oedd yn absennol o'r oedfa oherwydd anhwylder, a darllenwyd cerdd hyfryd ac addas gan Ben Evans, brawd Dan. Cynhaliwyd oedfa fer yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth yn nes mlaen yn y dydd.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Iris, ynghyd â'r bechgyn Dilwyn a Gareth, Malcolm ac Ian a'u teuluoedd, ynghyd â Ben a Harry, ei frodyr.

Cofiwn am Dan drwy gyfrwng yr adnod a ddyfynnwyd gan ei weinidog ar ddydd ei angladd sydd i'w gweld yn Llythyr yr Apostol Paul at Titus:
*'Ym mhob peth dangos dy hun yn esiampl o weithredoedd da, ac wrth hyfforddi amlyga ddidwylledd a gwedduster, a neges iachusol.'*

Coffa da am Dan a diolch am y fraint o'i adnabod.

**Beti-Wyn James**

# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Mawrth | | Ebrill | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Emlyn Schiavone | Huw Jones | Catrin Heledd Jones | Huw Michael |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 5 | | Ebrill | 2 | |
| | 12 | Fiona Elias | | 9 | Ann Thomas |
| | 19 | | | 16 | |
| | 26 | Alwen Owen | | 23 | Meleri Llwyd O'Leary |
| | | | | 30 | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | 5 | Bore | Teulu Angharad Wyn |
| Ebrill | 9 | Bore | Catrin Heledd Jones a Jayne Jones\| |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 5 | Carys Morgans | Ebrill | 2 | Y Plant |
| | 12 | Gill Owens | | 9 | Jayne Woods |
| | 19 | Y Mamau | | 16 | Yr Aelodau |
| | 26 | Philip Jones | | 23 | Miriam Wyrwoll |
| | | | | 30 | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | Catrin Heledd Jones | Ebrill | Elis Jones |

# RHWYDWAITH

***DYMUNWN*** **y**n dda i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Llawenydd mawr oedd derbyn dau aelod newydd i gymdeithas yr eglwys yn y Priordy yng Nghwrdd Cymun mis Chwefror, sef Heledd ap Gwynfor a Harry Evans. Dymunwn yn dda iddynt yn ein mysg. Maent eisoes yn ffyddlon i'n hoedfaon a Meredydd, mab Heledd, yn aelod yn ein Hysgol Sul.



Ar **Raglen Dei Tomos** ar **Radio Cymru** roedd Aled Evans yn un a fu'n trafod y gyfrol *Ar Nos Fercher Arferol*, a gyhoeddwyd i ddathlu 30 mlynedd o fodolaeth Ysgol Farddol Caerfyrddin.

Bu Beti-Wyn ar y **Post Prynhawn** ar **Radio Cymru** yn trafod y ddaeargryn a fu yn Twrci-Asia a'r anffawd a ddaeth i deulu'n Tŷ Capel yn colli chwech perthynas agos yn y drychineb a'r modd yr ydym yn ceisio'u helpu yn eu galar a'u gofid.

Roedd Catrin Haf Wiliams yn aelod o'r Panel a fu'n trafod canmlynedd o ddarlledu crefyddol yng Nghymru gyda Gwenfair Griffith ar **Bwrw Golwg** ar **Radio Cymru.**

Mae'n Nansi Williams a Gwilym Snelson ni i'w gweld ar gyfres newydd **Fferm Fach** ar **S4C**



***I GLOI***, ein dymuniadau da i Rhyswen Michael sydd newydd dathlu pen-blwydd arbennig. Cyfarchion oddi wrth bawb ohonom yn y Priordy.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ebrill i'n**
**Gweinidog neu Alun Charles**

**GAIR O WERTHFAWROGIAD**

Rydym yn ddiolchgar iawn i Adrian Evans (Arweinydd), Huw Michael (Darlleniad) Catrin Heledd Jones (Gweddi)a Peter Hughes Griffthis (Myfyrdod ar y thema Gobaith), Elis Jones (PwyntPwer) ac Eira Phillips (Organydd) am fod yn gyfrifol am yr oedfa ar Fore Sul 19 Chwefror 2023 yn absenoldeb anorfod ein Gweinidog. Gwerthfawrogir hyn yn fawr iawn.

## CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn yn gywir iawn â'n Gweinidog, Elin Wyn a Sara Llwyd ar golli tad Beti-Wyn a thad-cu'r plant, sef Walford Davies, Tŷ Rhys, Caerfyrddin a chynt o Ynysforgan a Chlydach ar 11 Chwefror 2023. Cofiwn am y teulu cyfan a'r holl gysylltiadau yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Philip, Jayne a Lucy Jones ar golli dwy fodryb i Philip yn ddiweddar, sef Alma Evans, Hafan Tywi, Caerfyrddin ar 9 Chwefror 2023, a Doreen Jones, Porthyrhyd House, Trawsmawr, Caerfyrddin, ar 13 Chwefror 2023. Meddyliwn am y teuluoedd cyfan yn eu galar.

Mynegwn ein cydymdeimlad â Huw a Rhyswen Michael ar golli chwaer yng nghyfraith Huw, sef Alison Michael, Whitchurch-on-Thames ar 2 Chwefror 2023. Cofiwn am ei gŵr, Bob, a'r plant a'r teulu cyfan yn eu galar a'u hiraeth.

## GAIR O DDIOLCH

Dymunwn fel teulu ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn y brofedigaeth o golli tad a thad-cu annwyl.
Mae ein gwerthfawrogiad y tu hwnt i eiriau.

**Beti-Wyn, Elin a Sara**

## CASGLIAD ARBENNIG

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at y casgliad arbennig a gynhaliwyd yn y Priordy ar Ddydd Sul, 12 Chwefror 2023 at Apêl Daeargryn Twrci a Syria drwy gyfrwng Cymorth Cristnogol. Llwyddwyd i gasglu'r swm ardderchog o £600. Mae'n diolch hefyd i'n Trysorydd, Adrian Evans, am gadw'r cyfrifon.

## DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Lowri Davies, Angharad Wyn a Betsan James am y lluniau'r mis hwn.

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mawrth** | **5** | **Bore** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **12** | **Bore** | Ein Gweinidog | |
| ***Sul y Fam*** | **19** | **Bore** | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |
| | **26** | **Bore** | Y Parchedig Ainsley Griffiths | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill**<br>***Sul y Blodau*** | **2** | **Bore** | Ein Gweinidog | |
| ***Sul y Pasg*** | **9** | **Bore** | Oedfa'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog | **C** |
| | **16** | **Bore** | Oedfa gyda'n Haelodau | |
| | **23** | **Bore** | Ein Gweinidog | |
| | **30** | **Bore** | Ein Gweinidog<br>Capeli Cymraeg y Dref yn ymuno â ni | |

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**

**✓ Ysgol Sul   PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul   CP – Cwrdd Plant**
**OD – Oedfa Deulu**

| Mawrth | | | | Ebrill | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5** | **12** | **19** | **26** | **2** | **9** | **16** | **23** | **30** |
| ✓ | ✓ | **OD** | ✓ | - | - | ✓<br>**PIP** | - | ✓<br>**PIP ar Daith** |

**Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu**

**Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen**

## DALIER SYLW

**Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur mewn da bryd.**